

Y Trip

Mi ganodd ein cloc larwm
Nes deffro'r meirw bron,
Ar ddydd ein trip blynyddol
I'r sioe ym Mryn y Don.

'Roedd pob un yno'n gynnar
Heblaw am Lis Llys Go',
Oedd wedi cael shwd ffwdan
Wrth iddi ffido'r llo.

Gan hwnnw oedd yn benstiff,
Yn gwrthod yfed llaeth,
Ac yna cicio'r bwced
Ar hyd ei feistres wnaeth.

A'r llaeth aeth dros ei dillad
O'i chorun lawr i'w thraed,
A mynd i'r tŷ yn frysiog
I newid fu 'ddi raid.

Ond wir mi wnaeth hi gyrraedd
'Rôl rhedeg dros y ddôl,
O flaen y bws a'i yrrwr,
Gan 'roedd ef bach ar ôl.

Bu Dewi Blaendoithie
Yn shafio llawer awr,
Gan edrych wnai ei wyneb
Fel pledren mochyn mawr.

Edrychai gwraig y ffeirad
Yn hynod iawn o dwt,
Mewn blows 'run lliw a charrot,
Yn matchio lliw ei siwt.

'Roedd Wili John Maes Isaf
A'i grys tu chwith, tu fas,
Ond gwrthod wnaeth ei newid
Rhag ofn cai anlwc gas.

'Roedd Sara wedi dyfod,
Mae'n ugain stôn neu fwy,
Pan steddodd ar y seddau
Mi torrodd hwy yn ddwy.

Wel dyna beth oedd helynt,
A llawer cafodd fraw,
'Roedd Sam ei gŵr yn gweiddi
"O dewch i roi help llaw!"

A rhedodd Enoc Dafis
Yn ôl i'w dŷ ar ras,
I mofyn rhyw hen bwli
I'w chodi cyn ai'n gas.

Ac yno bu am amser
Cyn daeth hi at ei hun,
Ac yna hi ddangosodd
Y cleisiau ar ei thîn.

Aeth gwyneb yr hen ficer
Mor goch â phêl o dân,
Pan steddodd ar ei liniau
I gael rhyw fendith lân.

Yn sydyn cwmpodd Meri
Ei *thermos flask* i'r llawr,
A'r tê oedd yno'n llifo
Fel afon ger Waun Fawr.

Gorchmynodd Ted y dreifar
'Ddi fyned ar ei hynt,
I mofyn mop a bwced
O fwthyn Bet Bwlch Gwynt.

Rhag ofn y syrthiai rhywun
A 'falle torri'i goes,
Gan geisio am bob compo
Mae pobl yn ein hoes.

Ac yna yr hen ficer
A waeddodd dros y lle,
Mae'n well i'n ddechrau teithio
Y ffordd i lawr i'r de.

Ond wrth i'r dreifar fyned
I lawr drwy stryd Bryn Cam,
Mi groesodd hogen wirion
O'i flaen yn pwshe pram.

Gorfodwyd ef i freco
A hynny'n sydyn nawr,
A llawer un o'r teithwyr
Ddisgynnodd ar y llawr.

Ac Anni Mei a weiddai,
"Daeth diwedd ar fy hynt,"
Gan 'roedd rhyw dri o ddyinion
Yn gorwedd ar ei gwynt.

Ac yna ail ddechreuwyd
Ar ôl i bawb gael sedd,
Gan basio llawer ardal
Nes dod i Gastell Nedd.

Pan bloedd ddaeth draw o'r cefen
I ddweud fod Twm Llys Fach,
Yn sâl ac iddo hwdi
Dros bump o'r merched bach.

Dywedwyd wrth y dreifar
I aros yn y fan,
Ar ganol traffordd brysur,
Gan Gwenni Ty'n y Llan.

A gwranddo a wnaeth arni,
Ac yno wir mi ddaeth
Rhyw blismon awdurdodol
A mynd ag ef a wnaeth.

Gan ei fod wedi stopio
Mewn man nag oedd 'na hawl,
A llawer un a weidda
"Rho gosfa i'r hen ddiawl."

Ac yno hwy a fuont
Am tua pedair awr,
Nes daeth ef nôl o'r diwedd
I'w dreifo hwy i lawr.

Ac yna yn y diwedd
Cyrhaeddyd wnaethant hwy,
Ond 'roedd y gatiâu'n nghaead
Yn wir ers awr neu ddwy.

Gan 'roedd hi wedi cyrraedd
Rhyw chwarter wedi saith,
Ar ôl yr holl helyntion
A gawsant ar eu taith.

A Deio Llys yr Eithin
A waeddodd nerth ei geg,
Anghofiwch am eich tripliau
Ar Gwener tair ar ddeg.

Ac aethant oll am adref
Yn ddiflas iawn eu gwedd,
Pob un 'roedd yno'n eistedd
Yn dawel yn ei sedd.

Heb weled 'run anifail,
Na Dai Llanilar llon,
A oedd yn mynd i'w ffilmio
Yn sioe fawr Bryn y Don.